

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddeialu 999?

Pan fyddwch chi'n deialu 999 gofynnir i chi pa wasanaeth yr ydych ei angen: ambiwlans, tân, heddlu neu wylwyr y glannau. Ar ôl i chi ofyn am y Gwasanaeth Tân cewch eich cysylltu â'r Gwasanaeth Tân.

Efallai y gofynnir i chi am y wybodaeth ganlynol ar ôl i chi ffonio 999 a gofyn am y Gwasanaeth Tân:

- Beth yw cyfeiriad y digwyddiad?
- Pa un yw'r brif ffordd agosaf?
- Beth yw eich cod post?
- Beth yw'r broblem?
- Oes tân yno?
- Beth sydd ar dân?
- Ydy pawb yn gallu dianc?
- Fedrwyd chi roi cyfarwyddiadau i mi sut mae eich cyrraedd o ...?

Mae eich atebion i gyd yn cael eu defnyddio i'n helpu ni i wybod beth sydd ei angen.



Beth os ydwr i'n methu dianc rhag y tân?

- Os nad ydych chi'n credu y gallwch chi adael eich cartref, hyd yn oed drwy ddefnyddio eich cynllun dianc, ni fyddwch ar eich pen eich hunan. Bydd cysylltydd y Gwasanaeth Tân yn aros ar y ffôn ac yn eich cefnogi nes i chi gael help i gyrraedd man diogel.
- Wedyn byddant yn gofyn cwestiynau am y math o eiddo yr ydych chi'n byw ynddo cyn gofyn pa ystafell y mae'r tân ynddi a pha ystafell yr ydych ynddi.
- Ar ôl hynny byddant yn gofyn cwestiynau am beth sydd ar dân, pwy arall sydd yn yr adeilad a pham nad ydych chi'n credu bod modd i chi adael.
- Yna, gall y cysylltydd Gwasanaeth Tân awgrymu sut y gallwch adael yr adeilad neu gynnig eich bod chi'n symud i ystafell arall os yw'n bellach i fwrdd o'r tân.
- Os penderfynir ei bod yn fwy diogel i aros yn yr adeilad, bydd cysylltydd y Gwasanaeth Tân yn rhoi cyngor i chi a fydd yn helpu i'ch diogelu rhag tân a mwg.
- Mae'r cyngor hwn yn cynnwys cau cymaint o ddrysau rhwng y tân a chi â phosibl, llenwi bylchau o gwmpas y drysau neu hyd yn oed agor ffenestr er mwyn cael gwared ar fwg.
- Bydd y cysylltydd Gwasanaeth Tân yn dweud wrthyfch faint o amser bydd peiriant tân yn cymryd i'ch cyrraedd a beth i'w ddisgwyl ar ôl iddo gyrraedd.
- Byddant hefyd yn dweud wrth y criwiau tân am ba fath o eiddo yr ydych ynddo, pa ystafell yr ydych ynddi a pham na allwch fynd allan

